

Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgell



monmouthshire
sir fynwy

2019/2022



Y Gwasanaeth Llyfrgell yn Sir Fynwy

***Yn helpu pobl Sir Fynwy i fyw bywydau
hapusach ac iachach***

Cyflwyniad	3
Cefndir Strategol	7
Amcanion Strategol Gwasanaeth Llyfrgell Sir Fynwy	11
Y Dechrau Gorau Posib mewn Bywyd: Llythrennedd	11
Lles Gydol Oes: Iechyd a Lles	14
Gwasanaeth Llyfrgell Sy'n Ffocysu ar y Dyfodol	17
Creu Cyfleoedd: Dysgu Gydol Oes	20
Annog Cyfoethogi: Diwylliant a Chreadigrwydd	21
Cynllun Gweithredu	23
Ystadegau'r Llyfrgelloedd	25

Cyflwyniad:

Y dechrau'n unig yw llyfrau

“Mae Llyfrgell Y Fenni yn hanfodol er mwyn cael mynediad at wybodaeth, dysgu a materion cymunedol. Mae wedi bod yn achubiaeth mewn nifer o ffyrdd dros y blynyddoedd”

Cwsmer Llyfrgell Y Fenni

“Mae angen y llyfrgell yn y gymuned. Mae grwpiau o bob oedran angen y cyfleusterau. Nid yn unig ar gyfer llyfrau ond i gwrdd â phobl a themlo yn rhan o'r gymuned.”

Cwsmer Hyb Cymunedol Cil-y-coed

“Mae'n ffordd ardderchog i sicrhau bod plant yn parhau i gael eu hysbrydoli i ddarllen yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd fy merch wrth ei bodd â'r Her.”

Cwsmer Hyb Cymunedol Cas-gwent

“Diolch i chi gyd am eich help wrth geisio sicrhau bod person dall, sy'n 97 mlwydd oed, dal yn medru derbyn ei hunig ffynhonnell o adloniant”

Cwsmer Cyflenwi i'r Cartref

“Mae'r llyfrgell gyhoeddus yn chwarae rôl allweddol o ran cynhwysiant cymdeithasol. Weithiau, dyma'r unig lle yn y gymuned lle y mae defnyddwyr yn medru treulio amser mewn awyrgylch diogel a niwtral. Mae cefnogi pobl sydd yn chwilio am waith yn cyfrannu at yr economi leol - a chenedlaethol. Drwy ddarparu cyfleusterau arbenigol ar gyfer y rhai hynny yn y gymuned sydd o bosib yn meddu ar anghenion arbennig, mae'r llyfrgelloedd yn cyfrannu at iechyd a lles....

Mae llyfrgelloedd yn chwarae rôl allweddol yn darparu gwybodaeth, yn hyrwyddo gwybodaeth a'n datblygu sgiliau ymhlith pobl o bob oedran ac o bob cefndir. Yn darparu lle i blant i wneud eu camau cyntaf yn gwrando ar straeon ac yn dysgu darllen i ddarparu manau tawel ar gyfer astudio a chefnogi pobl hŷn i roi cynnig ar dechnoleg newydd, mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at gyrraedd targedau llythrennedd, llythrennedd gwybodaeth a chynwysoldeb digidol.”

Connected and Ambitious Libraries: the sixth quality framework of Welsh Public Library Standards 2017 -2020

Mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn annog llythrennedd a dysgu gydol oes, yn helpu cynhwysiant digidol, yn cysylltu pobl ac yn helpu i adeiladu cymunedau, yn darparu gwybodaeth iechyd ac yn borth i'r byd o wybodaeth.

Mae'r gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus yr un mor bwysig a pherthnasol heddiw ag ydoedd yn 1850 pan gyflwynwyd y Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar, wrth i awdurdodau lleol wynebu toriadau mewn cyllid, mae'r gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus ar draws y DU wedi dod o dan fygythiad.

Yn wynebu gorfod torri gwasanaeth y llyfrgell neu ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau, mae Cyngor Sir Fynwy wedi datblygu pedair llyfrgell yn Hybiau Cymunedol. Roedd y cyntaf o'r rhain yn cynnwys cyfuno gwasanaethau'r llyfrgell a gwasanaethau ymholiadau'r cyngor sir.

Yn ystod 2017/2018, roedd y Gwasanaeth Llyfrgell Strategol, y Gwasanaeth Hybiau Cymunedol a Dysgu Cymunedol wedi cyfuno ac mae'r gwasanaethau yma nawr yn dwyn ynghyd gwasanaethau'r Cyngor, Llyfrgell a Dysgu i Oedolion oll gyda'i gilydd er mwyn creu pwynt cyswllt unigol i gymunedau.

Mae yna Hybiau Cymunedol nawr yng Nghil-y-coed, Cas-gwent, Trefynwy a Brynbuga.

Rydym hefyd yn cynnig Gwasanaeth Cyflenwi i'r Cartref, sydd yn mynd â llyfrau penodol i drigolion ar hyd a lled Sir Fynwy os nad ydynt yn medru ymweld â'r Hyb Cymunedol/Llyfrgell.

Mae'r model Hyb Cymunedol yn Sir Fynwy yn esblygu er mwyn annog mwy o ddefnydd cymunedol, cynnig mwy o gyfleusterau a rennir a gostyngiadau o ran costau.

Ar 1af Mai 2019, ail-agorodd y Swyddfa Bost ym Mrynbuga yn Hyb Cymunedol Brynbuga, a hynny wedi i'r swyddfa bost yn y dref gau. Mae'r datblygiad arloesol hwn yn ganlyniad i bartneriaeth waith effeithiol gyda Swyddfa'r Post, Cyngor Tref Brynbuga a Chyngor Sir Fynwy. Mae'r prosiect yn adlewyrchu ymrwymiad Cyngor Sir Fynwy i ddarparu gwasanaethau lleol ac rydym yn credu mai dyma'r tro cyntaf y mae Cyngor Sir wedi cymryd cam o'r fath.

Mae cynnyrch a gwasanaethau'r Swyddfa Bost nawr ar gael yn ystod oriau agor arferol yr Hyb Cymunedol. Mae Gwasanaeth y Llyfrgell wedi elwa o'r nifer uwch o bobl sydd yn ymwled gyda'r Hyb Cymunedol ac yn dod yn ymwybodol o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd yn cael eu cynnig yno.

Yn hydref 2019, yn dilyn cytundeb gyda Chyngor Cymuned Llanelly, rydym yn bwriadu gwella'r hyn sydd yn cael ei gynnig yn Llyfrgell Gilwern. Bydd gwasanaeth hwb meicro yn cynnwys cyfleuster i wneud taliadau cyngor, gofyn am adroddiadau gwasanaeth a threfnu digwyddiadau cymunedol dros dro.

Yn Chwefror 2020, bydd y gwasanaeth llyfrgell yn Y Fenni yn symud o'r safle presennol mewn hen adeilad bach, sef adeilad Carnegie, i adeilad ym Marchnad y Dref yng nghanol y dref. Mae'r Hyb Cymunedol wedi cyfuno'r llyfrgell gyda gwasanaethau ymholiadau'r Cyngor ac yn mynd i rannu'r cyfleuster newydd gyda'r theatr a'r heddlu, gan ddynodi oes newydd ar gyfer defnyddwyr llyfrgell yn yr ardal.

Mae Hybiau Cymunedol/Llyfrgelloedd yn fannau cynhwysol ac am ddim i bawb; maent yn cynnig gwasanaeth corfforol a digidol, yn groesawgar ac yn agored i bawb yn Sir Fynwy.

Mae'r Hybiau Cymunedol yn cynnig gwasanaeth unigryw o'r "crud i'r bedd". Drwy ein pwyntiau gwasanaeth lleol a gwasanaethau digidol ar-lein, rydym yn medru ehangu i mewn i gymunedau yn sylweddol a chynnig ffyrdd cost-effeithiol o sicrhau bod pobl leol yn cysylltu gyda'r gwasanaethau y maent eu hangen.



“Mae darllen yn allweddol ar gyfer datgloi potensial pob un plentyn ac yn agor byd o bosibiliadau. Mae addysg dda wrth gwrs yn fwy na darllen. Ond mae medru darllen yn dda yn sylfaen ar gyfer nifer o bethau eraill: mae plant yn ‘dysgu darllen’ yn gyntaf ac yna yn ‘darllen i ddysgu’.”

Achub y Plant [“Read On Get On”](#)

Cefndir Strategol

Dyletswyddau Statudol Llyfrgelloedd yn y DU

Mae awdurdodau lleol yn meddu ar ddyletswydd statudol o dan y [Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd](#) 'i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithiol i bob person'.

Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth llyfrgell sydd yn fodern ac effeithiol ac yn diwallu anghenion eu cymunedau.

Wrth ddarparu'r gwasanaethau yma, rhaid i awdurdodau lleol, ymhlith pethau eraill:

- rhoi ystyriaeth i annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth llyfrgell
- benthg llyfrau a deunyddiau argraffedig eraill am ddim i bobl sydd yn byw, gweithio neu'n astudio yn yr ardal

Strategaeth Llywodraeth Cymru

Mae'r Rhaglen Lywodraeth i Gymru, [Symud Cymru Ymlaen](#) yn amlinellu'r ymrwymadau sydd wedi eu gwneud gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwelliannau: gwneud gwahaniaeth i fywydau pawb yng Nghymru.

Roedd [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) wedi cefnogi datblygiad strategaeth genedlaethol ac yn nodi amcanion Llywodraeth Cymru.

Mae'r strategaeth genedlaethol, [Ffyniant i Bawb](#) yn gosod yr ymrwymadau hynny mewn cyd-destun tymor hir, ac yn amlinellu sut y byddant yn cael eu darparu drwy ddwyn ynghyd holl ymdrechion y sawl sydd yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw adeiladu Cymru sydd yn ffyniannus ac yn ddiogel, yn iachus a gweithgar, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, wedi uno ac yn gysylltiedig.

Amcanion Lles o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus

- Cymru â diwylliant bywiog lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar fyd-eang

Cyngor Sir Fynwy

Nod trosfwaol [Cyngor Sir Fynwy](#) yw adeiladu cymunedau cynaliadwy a dygn sydd yn cefnogi lles cenedlaethau cyfredol a'r rhai yn y dyfodol.

Mae modd categoreiddio amcanion lles Cyngor Sir Fynwy fel rhai sydd yn rhoi'r canlynol i drigolion:

Y Dechrau Gorau Posib mewn Bywyd

Lles Gydol Oes

Sir Ffyniannus ac Wedi Cysylltu'n Dda

Cyngor Sy'n Ffocysu ar y Dyfodol

Potensial yr Awyrgylch Naturiol ac Adeiledig

Hybiau Cymunedol, Llyfrgelloedd a Chanolfannau Cyswllt Cyngor Sir Fynwy

Amcanion trosfwaol y gwasanaethau yma:

- Yn sicrhau bod gwasanaethau cyngor a chymunedol lleol a hygyrch yn cael eu darparu, a thrwy hynny'n sicrhau bod cymunedau yn cael mynediad at ystod enag o wasanaethau sydd yn cefnogi iechyd, lles a dysgu ar gyfer y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol
- Darparu pwnt cyswllt unigol proffesiynol, effeithlon a rheng flaen i bobl er mwyn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor
- Cefnogi darparu gwasanaethau lleol drwy'r Hybiau Cymunedol (cyswllt wyneb i wyneb) a'r Ganolfan Gyswllt (ffôn, e-bost, cyswllt bot)
- Darparu gwasanaethau cysylltiedig sydd wrth wraidd ein cymunedau lleol ac yn caniatáu i ddinasyddion i ffynnu
- Ymgysylltu gyda chymunedau, ac wrth wneud hyn, yn deall taith y cwsmer ac yn gwneud darpariaeth addas i ddiwallu ystod eang o anghenion
- Meithrin cymunedau ffyniannus, cadarn, iachus a chydlynus

Cynigion Llyfrgell Cyffredinol

Mae 'Libraries Connected' a Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr yng Nghymru wedi mabwysiadu nifer o [Universal Offers](#) sydd yn arddangos y pŵer sydd gan lyfrgelloedd i ymgyfoethogi bywydau unigolion a'u cymunedau.

Mae'r rhain yn esblygu nawr ac yn nodi'r pedwar maes sydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr y llyfrgell yn cael mynediad at wasanaeth llyfrgell o ansawdd.

Y Cynigion Llyfrgell Cyffredinol yw:

- Darllen
- Gwybodaeth a Digidol
- Diwylliant a Chreadigrwydd
- Iechyd a Lles

Llyfrgelloedd Cymru

Connected and Ambitious Libraries (2017-2020) yw'r chweched fframwaith ansawdd sydd yn rhan o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'n cynnig mecanwaith er mwyn caniatáu Cynghorau Sir i gynllunio eu darpariaeth llyfrgell ac yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am yr hyn y maent yn medru disgwyl o'r gwasanaeth llyfrgell lleol.

Mae'r fframwaith yn cydnabod y buddion a ddaw o ddefnyddio'r llyfrgell - dysgu, iechyd a lles, cymunedau cydlynus a ffyniant - ac yn gosod 12 elfen graidd a 16 o ddangosyddion ansawdd er mwyn monitro pa mor dda y mae'r gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru yn cynnig y buddion yma ar gyfer eu cymunedau.

Yr elfennau craidd yw y bydd llyfrgelloedd yng Nghymru:

- Am ddim i ymuno â hwy ac yn agored i bawb
- Yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu
- Yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau safon uchel mewn ystod o fformatau er mwyn cefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, cyfranogiad cymunedol, a diwylliant a hamdden
- Yn darparu gwasanaethau priodol, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth i unigolion a grwpiau ag anghenion arbennig
- Yn darparu manau sydd yn ddiogel, deniadol a hygyrch gydag oriau agor a staff priodol

- Yn benthyg llyfrau am ddim, ac yn darparu mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein sydd ar gael 24 awr y dydd
- Yn sicrhau bod y rhyngrwyd a chyfrifiaduron ar gael am ddim i'w defnyddio gan gynnwys Wi-Fi
- Yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau safon uchel yn y Gymraeg
- Yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn rhannu catalogau a'n hwyluso mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru
- Yn gweithio ag ystod o bartneriaid er mwyn hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan ganiatáu i fwy o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny
- Yn ymgynghori gyda defnyddwyr yn gyson er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaeth a gwybodaeth am eu hanghenion newidiol
- Yn darparu mynediad at strategaeth, polisiau, amcanion a gweledigaeth gwasanaeth y llyfrgell, a hynny mewn print ac ar-lein, mewn ystod o ieithoedd priodol



Amcanion Strategol Gwasanaeth Llyfrgell Sir Fynwy

Mae amcanion strategol y gwasanaeth llyfrgell yn adlewyrchu strategaethau cenedlaethol a lleol yng Nghymru a Sir Fynwy.

Mae'r pwyslais ar greu cyfleoedd drwy llythrennedd, llythrennedd digidol a dysgu gydol oes, helpu pobl i fyw bywydau hapusach ac iachach drwy gael mynediad at wybodaeth iechyd a'n cynnig y cyfle i ymglyfoethogi drwy weithgareddau diwylliannol a chreadigol.

Amcanion strategol y gwasanaeth llyfrgell yn Sir Fynwy yw:

- Y Dechrau Gorau Posib mewn Bywyd: Llythrennedd
- Dysgu Gydol Oes: Iechyd a Lles
- Gwasanaeth Llyfrgell Sydd yn Ffocysu ar y Dyfodol
- Creu Cyfleoedd: Dysgu
- Annog Cyfoethogi: Diwylliant a Chreadigrwydd

Y Dechrau Gorau Posib mewn Bywyd

Gwella llythrennedd yn Sir Fynwy

“Mae plant sydd yn caru darllen yn mynd i ddarllen mwy, a dros amser, yn dewis llenyddiaeth sydd yn fwy heriol.....Mae pob math o ddarllen yn gwneud gwahaniaeth ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai darllen fel pleser sydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf”

([Reading: The Next Steps](#), DfE 2015)

“Roedd yna berthynas agos rhwng cyraeddiadau dysgu a defnydd o'r llyfrgell gyda phobl ifanc sydd yn darllen islaw'r lefel disgwylidig ar gyfer eu hoedran bron ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn ddefnyddiwr llyfrgell gyhoeddus”

([Public Libraries and Literacy](#), Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol, 2011)

Mae Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd yn cynnig y cyfle i blant i wireddu eu potensial llawn, yn cynnig cefnogaeth a chynghor i rieni wedi i'w plant gael eu geni.

Mae ein hamcanion yn adlewyrchu'r weledigaeth yn “[Children's Promise](#)” sydd yn deillio o Gymdeithas Uwch Lyfrgellwyr Plant ac Addysg:

- Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd yn ymweld gyda llyfrgell gyhoeddus yn cael ei ysbrydoli gan awyrgylch hygyrch a chyffrous, sydd yn golygu nad ydynt yn methu gwrthod y demtasiwn i ddarllen am bleser.
- Mae'r cyfle ganddynt i ymgysylltu gyda chyfleoedd digidol dychmygol drwy lyfrgelloedd cyhoeddus, yn adeiladu eu sgiliau, gwybodaeth a chreadigrwydd.
- Byddant yn dod o hyd i amryw o lyfrau ffuglen a ffeithiol sydd yn gynhwysol ac amrywiol ac adnoddau gwybodaeth eraill er mwyn cefnogi hyder cynyddol mewn llythrennedd a dysgu ffurfiol ac anffurfiol.
- Maent yn medru cymryd rhan mewn ystod eang o brofiadau llythrennedd a diwylliannol gan gynnwys gweithgareddau darllen a'n seiliedig ar lyfrau.
- Maent yn chwarae rhan weithgar mewn penderfyniadau am ddatblygiadau'r gwasanaeth ac yn cynnig cyfleoedd i wirfoddoli.
- Maent yn cael eu cefnogi drwy wasanaethau a gweithgareddau llyfrgell er mwyn gwella eu hiechyd a lles.

Dechrau Da

Mae Dechrau Da yn rhaglen BookTrust Cymru, sydd yn cael ei hariannu gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'n bartneriaeth rhwng y gwasanaeth llyfrgell a'r gwasanaeth ymwelwyr ieuchyd ac wedi ei integreiddio i mewn i'r rhaglen Ymwelwyr Iechyd Plant Cymru.

Drwy Dechrau Da, rydym yn anelu i gynnig llyfrau, adnoddau a chyfarwyddyd am ddim i bob teulu yn Sir Fynwy, pan fydd eu plentyn yn ei flwyddyn gyntaf o ran bywyd ac eto pan fydd yn blentyn bach.

Mae teuluoedd yn Sir Fynwy yn derbyn dau becyn Dechrau Da, fel arfer pan fydd y plentyn yn 6 mis a 27 mis. Mae'r rhaglen wedi ei chydlynu gan y gwasanaeth llyfrgell a'r pecynnau yn cael eu rhoi gan yr Ymwelwyr Iechyd.

Mae darllen a rhannu llyfrau, straeon a rhigymau o oedran cynnar yn cefnogi amryw o ganlyniadau, gan gynnwys iaith gynnar bositif, sgiliau llafar a chyfathrebu, bondio rhwng plant a rhieni a llythrennedd cynnar.

Yn Sir Fynwy, mae pob Hyb/Llyfrgell yn cynnal 'Sesiynau Rhigymod i Fabanod' ac rydym wedi ehangu yr ystod o weithgareddau (loga i Fabanod, Tylino Babanod, Rhigymau ac Arwyddion) drwy weithio gyda phartneriaid Cymraeg i Blant. Mae rhieni yn cael eu hannog i fenthg llyfrau ar ran y babanod a phlant bach fel rhan o'n menter Helfa Lyfrau Dechrau Da.



Pob Plentyn yn Aelod Llyfrgell

Rydym yn gweithio bob blwyddyn ag ysgolion er mwyn cofrestru gymaint o ddisgyblion Blwyddyn 4 ag sydd yn bosib wrth i ddosbarthiadau ymweld gyda'n Hybiau a Llyfrgelloedd. Mae pob plentyn sydd yn ymweld yn derbyn cerdyn llyfrgell ac yn cael ei annog i fenthg dau lyfr.

Mae'r ymweliad yn pwysleisio'r llawenydd o ddarllen am bleser a'r gwasanaethau niferus yr ydym yn cynnig am ddim:

- Defnyddio cyfrifiaduron a mynediad at y rhyngrwyd - oll am ddim
- Llyfrau ffuglen, llyfrau ffeithiol, llyfrau comic, nofelau graffig a siarad – oll am ddim
- Help am ddim i wneud gwaith cartref – ar-lein ac yn y llyfrgell
- E-lyfrau, e-gylchgronnau a llyfrau llafar am ddim
- Staff llyfrgell sydd yn ddefnyddiol
- Rhywle diogel i gwrdd â ffrindiau

Sialens Ddarllen yr Haf

Mae'r llyfrgelloedd yn Sir Fynwy yn cymryd rhan bob blwyddyn yn Sialens Ddarllen yr Haf, sydd yn cael ei chydlynu gan yr Asiantaeth Ddarllen a'i chynnal mewn llyfrgelloedd ar draws y DU.

Mae Sialens Ddarllen yr Haf, yn annog plant rhwng 4 a 11 i ddarllen chwe llyfr yn ystod gwyliau hir yr haf.

Mae yna thema wahanol bob blwyddyn. Mae plant yn medru darllen beth bynnag y maent yn dymuno - llyfrau ffeithiol, llyfrau jôcs, llyfrau lluniau, llyfrau llafar - ar yr amod y maent yn cael eu benthyg o'r llyfrgell. Mae plant yn derbyn sticer arbennig bob tro ar ôl iddynt orffen llyfr ac mae yna dystysgrif, medal a gwobrau i bawb sydd yn cwblhau'r Her.

Manteision allweddol Sialens Ddarllen yr Haf yw:

- Gwella a chefnogi ein cenhadaeth i'r holl blant i ddarllen yn eang ac am bleser
- Annog ymgysylltiad gan rieni a chyfranogiad teuluol mewn darllen
- Cyfrannu at gyraeddiadau'r holl ddisgyblion gan gynnwys Anghenion Addysg Arbennig, disgyblion o dan anfantais a'r rhai mwyaf abl
- Yn medru bod yn fan cychwyn o ran taith ddarllen y plentyn
- Mae darllen ymhlith plant yn medru 'disgyn' yn ystod gwyliau hir yr haf os nad ydynt yn medru cael mynediad at lyfrau a'u hannog i ddarllen am bleser. Mae

hyn yn medru bod yn broblem i ysgolion yn ystod term yr hydref, ac mae Sialens Ddarllen yr Haf yn helpu drwy annog plant i ymweld gyda'r llyfrgell dros yr haf.

Lles Gydol Oes

“Ein dymuniad yw bod Sir Fynwy'n le lle bod unigolion a chymunedau wedi'u cysylltu yn fwy a bod gan bawb y cyfle i ddatblygu perthnasau go iawn, beth bynnag yw eu hoedran, statws, amgylchiadau neu hunaniaeth.” (Gweledigaeth Cyngor Sir Fynwy).

“Mae darllen yn caniatáu i ni ehangu ein gorwelion a chodi ein huchelgais. Mae'n adeiladu creadigrwydd a dychymyg, gwybodaeth a sgiliau, empathi a dealltwriaeth. Mae'n cysylltu pobl ac yn cryfhau cymunedau. Mae'n gwella ein cyfleoedd, yn llywio cyfleoedd bywyd ac yn helpu ni i reoli ein hiechyd a lles. Mae darllen yn caniatáu i ni wneud ein gorau glas, pwy bynnag ydym, pa bynnag oedran a beth bynnag yw'r her yr ydym yn wynebu” (Sue Wilkinson, Prif Weithredwr, Yr Asiantaeth Ddarllen [Society of Readers](#) DEMOS 2018)

Mae Hybiau Cymunedol/Llyfrgelloedd yn medru chwarae rôl allweddol yn rhai o'r heriau sylweddol o ran lles gydol oes; unigrwydd, iechyd meddwl.

Mae perthnasau positif a charedigrwydd wrth wraidd ein lles. Mae caredigrwydd yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac yn cynnig y blociau adeiladu ar gyfer myrmuso a chyfoethogi drwy berthnasau positif a'r gwerthoedd.

Mae Carnegie UK Trust wedi bod yn ystyried syniadau er mwyn atgyfnerthu caredigrwydd yn y gweithleoedd, gwasanaethau a chymunedau ac yn gwyntyllu rôl caredigrwydd mewn polisïau cyhoeddus. Mae [“Quantifying kindness, public engagement and place”](#) gan Jennifer Wallace a Ben Thurman yn datgelu fod 92% o bobl yng Nghymru yn cytuno eu bod yn cael eu trin â charedigrwydd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

Mae Hybiau Cymunedol yn cynnig cyfleoedd i amryw o bartneriaid i gwrdd: MIND, Cymorth i Ddiodefwyr, Cyfryngu Teuluol Cymru, Cyfannol, Cymorth i Fenywod ayyb.



LIVING WELL IN WALES
Get more from your Library
BYW'N DDA YNG NGHYMRU
Defnyddiwch eich Llyfrgell leol

Lleihau Unigrwydd

Mae'r [Society of Readers](#), adroddiad gan un o'r prif felinau trafod, Demos, yn rhagweld y bydd unigrwydd, erbyn 2030, yn cyrraedd lefelau epig gyda 7 miliwn o bobl yn profi unigrwydd ymhlith y grŵp oedran 60 a'n hŷn. Gyda'r [Groes Goch](#) yn amcangyfrif fod 9 miliwn o bobl yn y DU yn teimlo'n unig yn 'aml' neu 'drwy'r amser', mae'r ymchwil hwn yn amlygu'r buddion yn elwa o ddarllen fel ffordd o gysylltu'n gymdeithasol.

Mae darllen yn medru bod yn weithgaredd yr ydych yn gwneud ar ben eich hun ond mae'r ymchwil yn dangos ei fod hefyd yn medru lleihau unigrwydd mewn sawl ffordd. Mae'r sawl sy'n unig yn medru ystyried darllen fel gweithgaredd hamdden gwerth chweil mae darllenwyr yn medru ymgolli mewn stori sydd yn eu helpu i anghofio am ddiffyg cyswllt cymdeithasol.

Mae'r Gwasanaeth Cyflenwi i'r Cartref yn mynd â'r llyfrau mewn pob math k fformat i gwsmeriaid na sydd yn medru ymweld gyda'r llyfrgell leol yn sgil y ffaith eu bod yn fregus neu'n profi problemau symudedd neu afiechyd. Mae rhai o'r cwsmeriaid yma yn medru bod yn fregus iawn. I rai o'n cwsmeriaid, nid ydynt yn gweld neb arall drwy'r dydd. Mae ein Swyddog Allgymorth wedi sylwi fod ein cwsmeriaid Cyflenwi i'r Cartref yn aml yn defnyddio'r term "achubiaeth" i ddisgrifio'r gwasanaeth.

Mae llyfrgelloedd hefyd yn medru defnyddio darllen fel gweithgaredd cymdeithasol drwy gyfrwng Grwpiau Darllen a Chyd-ddarllen.

Yn ogystal â chynnal Grwpiau Darllen, rydym yn annog ac yn cefnogi cyfarfodydd grŵp yn y gymuned drwy ddarparu cyngor a chynnig llyfrau i'r Grŵp Darllen. Wedi ei gyflwyno gan Fudiad y Darllenwyr, mae Cyd-ddarllen yn dwyn ynghyd grwpiau bach o bobl er mwyn darllen llyfr, straeon byr neu gerddi ar lafar. Mae aelodau'r grŵp yn medru dewis cyd-ddarllen, rhannu eu barn bersonol neu wrando ar yr hyn sydd yn cael ei ddarllen - yn y ffordd yma, mae unigolion yn ffurfio cysylltiadau go iawn gyda'r llenyddiaeth a gyda'i gilydd.

Mae pump o'n pwyntiau gwasanaeth yn cynnal sesiynau Cyd-ddarllen bob wythnos, ac rydym yn datblygu ein cynnig o Gyd-ddarllen drwy gyfrwng gwirfoddolwyr Cyd-ddarllen mewn Cartrefi Gofal.

Mae'r Hybiau Cymunedol/Llyfrgelloedd yn medru helpu ag unigrwydd oherwydd yr ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau yr ydym yn cynnal. Rydym wedi canfod fod modd meithrin cyfeillgarwch cryf o gyfuno'r grwpiau yma, gyda grwpiau yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol y tu hwnt i'w cyfarfodydd arferol.

Gwella Mynediad at Wybodaeth Iechyd

Mae staff yr Hybiau Cymunedol/Llyfrgelloedd yn staff gwybodaeth hyfforddedig, ac maent yn medru cael mynediad a gwerthuso'r holl wybodaeth iechyd sydd ar gael. Mae llyfrgelloedd o hyd wedi bod yn llefydd y mae pobl yn ymddiried ynddynt, yn darparu mynediad gwrthrychol i wybodaeth a chyngor, ac maent yn hygyrch i bobl fregus.

Mae pob Hyb Cymunedol/Llyfrgell yn meddu ar fan iechyd a lles. Mae yna bwyntiau Cancr Macmillan sydd yn darparu gwybodaeth i'r sawl sydd wedi eu heffeithio gan gancr.

Yn Cefnogi Pobl Sydd yn Byw â Dementia

Mae Darllen yn Dda ar gyfer Dementia wedi ei ddatblygu gan yr Asiantaeth Ddarllen mewn partneriaeth gyda Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr. Mae'n cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, Wellcome a Llywodraeth Cymru. Lanswyd y cynllun ar hyd a lled Cymru yng Ngorffennaf 2018.

Mae Darllen yn Dda ar gyfer Dementia yn argymhell llyfrau sydd yn medru bod yn ddefnyddiol i bobl sydd â dementia, neu gwsmeriaid sydd am fwy o wybodaeth am y cyflwr. Mae'r llyfrau yn cynnwys gwybodaeth a chynghor, yn helpu ar ôl derbyn y diagnosis, yn cynnig cymorth ymarferol i ofalwyr a straeon personol.

Mae'r llyfrau ar gael i unrhyw un eu benthyg o unrhyw un o'n pwyntiau gwasanaeth. Mae Meddygon Teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn medru argymhell un o'r llyfrau.


Mae'r llyfrau oll wedi eu hargymhell gan weithwyr iechyd proffesiynol ac maent wedi eu harbroti gyda phobl sydd â phrofiad o ddementia. Maent wedi eu dewis gan ddefnyddio'r canllawiau a'r safonau ansawdd ar gyfer gofal dementia o NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal) a mudiadau proffesiynol eraill.

Mae pob un o'r pwyntiau gwasanaeth yn meddu ar Gasgliad Cof sydd yn cynnwys llyfrau ar gyfer pobl sydd yn colli cof, eu perthnasau a gofalwyr, i rannu gyda'i gilydd.

Gwella Iechyd Meddwl a Cefnogi Pobl Sydd â Materion Iechyd Meddwl

Mae darllen yn helpu i ddelio gyda straeon: mae hyd yn oed chwe munud yn medru helpu i leihau straeon. Casgliadau Codi'r Hwyliau, hyrwyddiad cenedlaethol o lyfrau i godi'r galon, yn cynnwys nofelau, barddoniaeth a llyfrau anffuglennol ar gael o'ch llyfrgell leol.

Mae'r cynllun Darllen yn Dda ar gyfer Iechyd Meddwl wedi ei ddatblygu gan yr Asiantaeth Ddarllen mewn partneriaeth gyda Libraries Connected. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, Wellcome a Llywodraeth Cymru.



DARLLEN YN WELL | **READING WELL**
Llyfrau ar Bresgripsiwn | Books on Prescription

Darllen yn Well ar gyfer iechyd meddwl
Dod o hyd i lyfrau i'ch helpu yn eich llyfrgell leol

Reading Well for mental health
Find helpful books at your local library

Argymhellwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol a phobl gydag anghenion iechyd meddwl

Recommended by health professionals and people with mental health needs

reading-well.org.uk/cymru

Logos: National Health Service, CYNGOR LLYBRAU CYMRU WELSH BOOKS COUNCIL, The Society of Chief Librarians, Libraries Connected, ARTS COUNCIL ENGLAND, THE READING AGENCY

Mae Darllen yn Dda ar gyfer Iechyd Meddwl yn helpu pobl i ddeall a rheoli eu hiechyd meddwl a'u lles gan ddarllen teitlau defnyddiol sydd ar gael o'n llyfrgelloedd

cyhoeddus, Mae'r cynllun wedi ei gymeradwyo gan weithwyr iechyd proffesiynol a phobl ag anghenion iechyd meddwl.

Mae'r rhestr yn cynnwys 37 o deitlau sydd yn cynnig llyfrau i oedolion ag anghenion iechyd er mwyn rhoi cyngor, gwybodaeth a chyngor gan gynnwys hunan-help, seico-addysg a chofiannau.

Mae'r llyfrau ar gael i unrhyw un i fenthyg o'n pwyntiau gwasanaeth. Mae Meddygon Teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol yn medru argymhell un o'r teitlau.

Rydym yn datblygu ein cynnig i wirfoddolwyr er mwyn medru cynnig ystod eang o rolau fel dweud straeon, crefft, garddio ac allgymorth. Mae hyn yn medru helpu pobl sydd â materion iechyd meddwl drwy roi'r cyfle iddynt i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, er mwyn rhannu sgiliau a rhoi ymdeimlad o berthyn a phwrpas defnyddiol.

Mae pob pwynt gwasanaeth yn cynnwys casgliad Yn Well gyda Llyfrau, gyda llyfrau i helpu gyda'r problemau emosiynol sydd yn cael eu profi gan blant a phobl ifanc.

Gwasanaeth Llyfrgell Sy'n Ffocysu ar y Dyfodol

Model yr Hyb Cymunedol

Mae'r model Hyb Cymunedol yn cofleidio gwasanaethau lleol gwahanol mewn un cyfleuster a rennir. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth llyfrgell yn parhau wrth wraidd ein cymunedau lleol, gyda'r fantais o fedru cynnig gwasanaethau eraill yn yr adeilad er mwyn gwella'r broses o weithio mewn partneriaeth ac annog mwy o ymweliadau.

Prif ffocws yr Hybiau Cymunedol yw gweithio gyda'r gymuned a chynnig gwasanaethau cymunedol. Mae hyn hefyd wedi arwain at weithio mewn partneriaeth gydag ystod o wasanaethau yn y sector gwirfoddol a'r trydydd sector gan gynnwys undebau credyd, CAB, cymorthfeydd budd-daliadau ac asiantaethau tai. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i'r gwasanaeth llyfrgell i ymgysylltu gyda nifer o aelodau'r gymuned na fyddai fel arall wedi ystyried y llyfrgell fel rhywbeth perthnasol i'w bywydau.

Mae'r hybiau gwasanaeth yn cael eu darparu gan dimau aml-sgilgar sydd yn gweithio ar draws y cyngor, y gwasanaethau llyfrgell a dysgu cymunedol, yn datblygu sgiliau a gwybodaeth y staff rheng flaen.

Cydweithrediad Gwasanaeth Llyfrgell Cymru Gyfan

Mae'r consortiwm prynu Cymru Gyfan wedi sicrhau arbedion sylweddol o ran ein cyllideb llyfrau, yn ein caniatáu ni i brynu yn fwy eang a phrynu copïau o deitlau poblogaidd.

Mae'r cydweithrediad hwn hefyd wedi caniatáu ni i ddarparu ein gwasanaethau e-Llyfrau, Llyfrau Llafar, E-Gylchgronnau ac e-Llyfrau Comic, i gwsmeriaid ar gyfradd dipyn yn is ar ran y cyngor sir.

Mae'r cynllun benthyg rhwng llyfrgelloedd, Books4U, yn caniatáu aelodau i fenthyg teitlau am ddim o awdurdodau a phrifysgolion sydd yn rhan o'r consortiwm.

Rydym yn defnyddio System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan sydd wedi ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ac mae hyn eisoes wedi sicrhau arbedion sylweddol i'r gwasanaeth llyfrgell. Bydd datblygiadau posib dipyn yn fwy fforddiadwy ar sail caffael fel rhan o gonsortiwm.

Gwasanaethau Digidol

Mae ein holl bwyntiau gwasanaeth yn cynnig mynediad am ddim i'r rhyngwrdd i holl aelodau'r llyfrgell, a Wi-Fi am ddim.

Rhaid i'r holl staff gael y sgiliau i helpu defnyddwyr, yn enwedig y rhai hynny sydd â gwybodaeth ddigidol gyfyngedig ar hyn o bryd, er mwyn ceisio canfod eu ffordd drwy'r byd digidol hwn.

Nid yw'r gwasanaeth llyfrgell yn cynnig cyrsiau TG cychwynnol, ond gan fod y Gwasanaeth Dysgu Cymunedol lleol nawr wedi ei leoli mewn pedwar o'n Hybiau Cymunedol, rydym wedi manteisio ar eu harbenigedd i gynnig ystod o gyrsiau TG, gan gynnwys seisynau Te a Thec.

Gwybodaeth Ar-lein 24/7

Mae ystod o adnoddau ar-lein gennym sydd yn dangos ein hymroddiad at wybodaeth ar-lein 24/7:

- Papurau-newydd o'r bedwaredd ganrif at bymtheg

Mae prosiect cydweithredol rhwng y Llyfrgell Brydeinig a Gale yn golygu bod yna fersiynau digidol ar gael o bapurau newydd Prydain o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Drwy gymryd casgliad y Llyfrgell Brydeinig o bapurau newydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'i droi yn fformat digidol o safon gyda delweddau y mae modd eu chwilio, mae'r gronfa ddata yn cynnig mynediad ar-lein at set allweddol o ffynonellau cynradd ar gyfer astudio hanes y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

- Who Else Writes Like?

Dyma adnodd gwe sefydledig ac offeryn hyrwyddo darllen. Wedi ei ddylunio er mwyn helpu unrhyw un sydd yn mwynhau darllen gwaith ffuglen ac ehangu'r nifer o ysgrifenyddwyr y maent yn eu darllen.



- Pwy Nesaf?

Pan fydd plant yn gofyn: “Pwy ddylem ei ddarllen nesaf?” neu “Pwy sydd yn ysgrifennu fel fy hoff awdur?”, mae'r atebion ar gael yn Who Next...?

Mae ysgrifenyddwyr gwaith ffuglen i blant yn cael eu rhestru gydag awgrymiadau ar gyfer awduron eraill sydd yn ysgrifennu mewn modd tebyg, gyda manylion am y llyfrau a'r cyfresi.

- Theori Test Pro

Mae Theori Test Pro yn efelychu profion gyrru theori'r DU ar gyfer pob math o gerbyd. Mae'n cynnwys yr holl gwestiynau swyddogol sydd wedi eu trwyddedu o'r DVSA, sef y bobl sydd yn gosod y profion.

Cronfeydd Data Ar-lein Sydd Ar Gael yn ein Pwyntiau Gwasanaeth

Rydym hefyd yn cynnig mynediad am ddim i'r adnoddau ar-lein canlynol o'r cyfrifiaduron llyfrgell sydd yn ein holl lyfrgelloedd:

- Mynediad at Ymchwil (Access to Research)

Mae Mynediad at Ymchwil (Access to Research) yn rhoi mynediad am ddim i fwy na 15 miliwn o erthyglau academaidd yn y llyfrgelloedd hynny sydd yn cymryd rhan yn y cynllun ar draws y DU. Mae myfyrwyr ac ymchwilwyr annibynnol nawr yn medru cael mynediad at nifer o'r papurau academaidd gorau o'r prif gyhoeddwyddwyr sydd wedi sicrhau bod cynnwys eu cyfnodolion ar gael.

- Which?

Mae'r gronfa ddata yn rhoi mynediad at fwy na 8,000 o adolygiadau gwrthrychol manwl ac arbenigol, fel bod defnyddwyr yn medru canfod yr hyn y dylent brynu a'r hyn na ddylent ei brynu.

- Ancestry

Mae Rhifyn Llyfrgell Ancestry® yn un o'r casgliadau achyddol pwysicaf sydd ar gael heddiw. Mae'n cynnwys y Deyrnas Unedig a'r UDA, gan gynnwys cofnodion am y cyfrifiad, yr eglwysi, llysoedd a mewnfudo, ynghyd â chasgliadau o Ganada, Ewrop, Awstralia a gwledydd eraill y byd.

- Find My Past

Mae Rhofyn Find My Past wedi ei ddylunio er mwyn caniatáu i'n cwsmeriaid i gael mynediad at y mwyafrif helaeth o gofnodion hanes teuluol Find My Past.

E-lyfrau, Llyfrau Llafar, e-Gylchgronau ac e-Lyfrau Comic

Fel aelodau o Gonsortium Prynu Cymru Gyfan, rydym yn medru cynnig gwasanaeth lawrlwytho digidol am ddim, sy'n ffantastig ac yn cynnig gwerth am arian.

Mae Borrowbox yn rhoi mynediad at filoedd o e-Lyfrau ac e-Lyfrau Llafar i oedolion, plant a phobl ifanc, a hynny o un gwefan.

Mae modd gosod yr ap Borrowbox ar ffonau clyfar neu lechi, sydd yn caniatáu i aelodau i chwilio a lawrlwytho e-Lyfrau ac e-Lyfrau Llafar yn hawdd. Fel arall, mae cwsmeriaid yn medru lawrlwytho e-Lyfrau i gyfrifiadur a'u trosglwyddo i eReader; a lawrlwytho e-Lyfrau Llafar i gyfrifiadur er mwyn eu trosglwyddo i chwaraewr MP3.



Mae RB Digital yn rhoi mynediad at rifynnau cyfredol a hen rifynnau o fwy na 250 o gylchgronau poblogaidd fel Cosmopolitan, BBC Good Food, Economist. O'r un wefan, mae aelodau yn medru lawrlwytho llyfrau comic a nofelau graffig, gan gynnwys Spiderman, Thor, GI Joe, X-Men, Star Trek. Mae modd lawrlwytho'r rhain ar ffonau clyfar, llechi a chyfrifiaduron PC.

Creu Cyfleoedd

Mae llyfrgelloedd wedi bod yn llefydd sydd yn cynnig mynediad am ddim at wybodaeth; yn y gorffennol, cyfeiriwyd atynt fel "prifysgolion y bobl dlawd". Mae defnyddwyr yn medru cael mynediad at ein hadnoddau er mwyn gwella eu haddysg, beth bynnag yw eu hoedran. Fel y dywedwyd yn gynharach yn y strategaeth, maent hefyd yn hanfodol er mwyn cyflwyno llythrennedd drwy fwynhau llyfrau a darllen. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn medru cynnig dysgu gydol oes o'r "crud i'r bedd".

Darparu Mynediad at Wybodaeth

Mae llyfrgelloedd wrth galon eu cymunedau. Maent yn hygyrch, am ddim, gyda phobl yn ymddiried ynddynt er mwyn cael gafael ar wybodaeth. Wrth i fwy a mwy o wybodaeth ddod ar gael, mae sgiliau ein staff hyfforddedig yn fwy hanfodol gan eu bod yn helpu cwsmeriaid i gael mynediad ac asesu gwybodaeth sydd yn hanfodol o ran bywyd mewn meysydd fel chwilio am swyddi, budd-daliadau, cyllid personol ac iechyd.

Mae'r wybodaeth sydd gan yr Hybiau Cymunedol ar y rhengflaen wedi ei ymestyn er mwyn caniatáu ein pwyntiau gwasanaeth i fod yn borth ar gyfer holl wasanaethau Cyngor Sir Fynwy.

Mae mwy na 32,000 o lyfrau ffeithiol ar gyfer oedolion a mwy na 24,000 o lyfrau ffuglen i oedolion gennym. I blant, mae mwy na 26,000 o deitlau ffuglen a mwy na 6,000 o deitlau ffeithiol gennym.

Mae cwsmeriaid yn medru gwneud cais am ddim am lyfrau sydd mewn stoc. Mae'r cynllun benthyg rhwng llyfrgelloedd, Books4U, yn cael ei weithredu ar draws De Cymru ac yn annog ein haelodau llyfrgell i fenthyg teitlau gan awdurdodau a phrifysgolion am ddim. Nid ydym yn codi ffi am geisiadau am eitemau o fewn Cymru.

Cyfleoedd Dysgu Sydd Ar Gael Drwy Ddysgu Cymunedol

Mae pedair o'r pum canolfan Dysgu Cymunedol sydd ar gael yn Sir Fynwy yn cynnal eu dosbarthiadau yn yr Hybiau Cymunedol.

Mae ystod eang o gyrsiau yn cael eu cynnal gan gynnwys Cyfrifiaudron, Ieithoedd, Saesneg a Mathemateg, Celf a Chrefft, Blodeuwriaeth, Saeseg fel ail iaith a llawer iawn mwy.

Annog Cyfoethogi

Diwylliant a Chreadigrwydd

Mae diwylliant yn ymrymuso; mae'n helpu i ddatblygu hyder a sgiliau. Mae'n medru gwella ein hydemeimlad o les a chynyddu ein hydmeimlad o berthyn i'n cymunedau lleol ac ehangach.

Mae llyfrgelloedd yn warcheidwaid o gasgliadau lleol a chasgliadau arbennig, sydd yn adnoddau allweddol o ran creu hunaniaeth ddiwylliannol ein cymunedau.

Un o'n amcanion craidd yw hyrwyddo llyfrau a'r cariad tuag at ddarllen.

Rydym yn hyrwyddo'r ffuglen newydd gorau drwy ein harddangosfeydd a chyfryngau cymdeithasol. Mae ein cynnig unigryw yn cynnwys ein gallu i roi mynediad at eitemau hŷn, sydd allan o brint, drwy ein stoc ein hunain a thrwy aelodaeth o'r cytundeb sydd gennym ar hyd a lled Cymru wrth i sefydliadau fenthyg eitemau i'w gilydd.

Rydym yn hyrwyddo llenyddiaeth wych, hen a newydd, drwy ein Grwpiau Cyddarllen a Grwpiau Darllen.

I lawer o blant, eu profiad diwylliannol cyntaf fydd mynychu Sesiwn Rhigymau i Fabanod neu Sesiwn Straeon yn y llyfrgell leol. Ni yw'r lle y maent yn medru cael mynediad at ystod eang o lyfrau gwych sydd nawr ar gael i blant.

Mae yna berthynas agos rhwng diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo'r ddau.

Nid oes nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy, ac felly, rydym yn ffocysu ein hadnoddau ar ddysgwyr Cymraeg. Mae gwersi Cymraeg yn cael eu cynnal o fewn rhai o'n pwyntiau gwasanaeth ac mae dau gasgliad i ddysgwyr Cymraeg gennym.

Rydym wedi cymryd mantais o'r trefniadau prynu ar gyfer Cymru gyfan er mwyn prynu llyfrau print bras Cymraeg i oedolion, a llyfrau Cymraeg llafar i blant ac oedolion. Rydym hefyd wedi prynu'r detholiad o lyfrau Cymreig yn y Gymraeg a'r Saesneg gan Gyngor Llyfrau Cymru. Rydym wedi gweithio gyda Cymraeg i Blant Mynwy er mwyn cynnig sesiynau loga, Storïau, Rhigymau ac Arwyddion, a Thyllino Babanod a Chlwb Cwtsh i deuluoedd ifanc. Rydym hefyd yn cynnal Sesiynau Rhigymod i Fabanod yn y Gymraeg yn Llyfrgell Y Fenni.

Mae creadigrwydd yn ei holl ffurfiau yn rhan hanfodol o fod yn ddynol ac yn hanfodol ar gyfer lles.

Mae ein holl bwyntiau gwasanaeth yn cynnal Sesiynau Rhigymod i Fabanod a Straeon i Blant, a hynny ar ôl sesiynau crefft yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae'r ystod o weithgareddau am ddim i oedolion yn cynnwys Gwnïo a Sgwrsio, Grwpiau Ysgrifennu, Cyd-ddarllen, Grwpiau Darllen.

Mae ein cwsmeriaid hefyd yn medru cael mynediad at ystod o gyrsiau – gan gynnwys ieithoedd, celf a dosbarthiadau – a hynny drwy ein cydweithwyr Dysgu yn y Gymuned sydd yn yr Hybiau Cymunedol.

Cynllun Gweithredu

Amcan Strategol	Cynllun	Mesur perfformiad	2019/2020	2020/2021	2021/2022
Y Dechrau Gorau Posib Mewn Bywyd: Llythrennedd					
Dechrau Da	Cynllun Gwella Gwasanaeth Cyngor Sir Fynwy	Nifer y pecynnau Dechrau Da a Blynyddoedd Cynnar sy'n cael eu rhannu gan yr Ymwelwyr Iechyd			
Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell	Cynllun Gwella Gwasanaeth Cyngor Sir Fynwy	Cyfanswm y dosbarthiadau sydd yn ymweld			
Sialens Ddarllen yr Haf	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cyfanswm y plant sy'n cymryd rhan			
Deunydd darllen cyfredol a phriodol	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cyfanswm yr eitemau sydd wedi eu caffael			
Nifer o lyfrau sy'n cael eu rhoi i blant	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cyfanswm y llyfrau, e-Lyfrau a llyfrau llafar sydd wedi eu rhoi i blant			
Bodlonrwydd cwsmeriaid: plant	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Sgôr gyfartalog gyffredinol allan o ddeg sydd yn cael ei roi gan ddefnyddwyr rhwng 7 a 16 ar gyfer y llyfrgell y maent yn defnyddio			
Dysgu Gydol Oes: Iechyd a Lles					
Cynlluniau Darllen yn Dda		Nifer o'r teitlau Darllen yn Dda gyda Dementia a Darllen yn Dda ar gyfer Iechyd Meddwl			

Creu Cyfleoedd: Dysgu Gydol Oes	Cynllun	Mesur perfformiad	2019/2020	2020/2021	2021/2022
Bodlonrwydd cwsmeriaid: Gwybodaeth am lechyd a Lles	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cyfran yr oedolion sydd wedi canfod gwybodaeth ddefnyddiol am lechyd a Lles yn y llyfrgell			
Bodlonrwydd cwsmeriaid: Gwneud gwahaniaeth i fywydau plant	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cyfran yr oedolion sydd yn credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau			
Dysgu sgiliau newydd	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cyfran yr oedolion sydd yn credu fod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd			
Hyfforddiant anffurfiol	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Nifer y cwsmeriaid sydd wedi eu helpu yn sgil hyfforddiant anffurfiol yn ystod y flwyddyn			
Annog Cyfoethogi: Diwylliant a Chreadigrwydd	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru				
Presenoldeb mewn digwyddiadau	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cyfanswm y nifer sydd yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi eu trefnu gan y gwasanaeth llyfrgell			
Deunydd Cymraeg	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Gwariant am bob 1,000 o drigolion sydd yn siarad Cymraeg			
Aelodaeth Llyfrgell	Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru	Cyfanswm nifer o fenthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn			

Ystadegau'r Llyfrgelloedd

Perfformiad Llyfrgelloedd Sir Fynwy Ebrill - Mawrth 2018/19

	Y Fenni	Cil-y-coed	Cas-gwent	Gilwern	Trefynwy	Brynbuga	Cyflenwi i'r Cartref	Cyfanswm
LLYFRAU								
FFEITHIOL I OEDOLION	27,704	25,258	30,300	4,910	30,282	8,037	8,344	134,835
FFUGLEN I OEDOLION	8,790	5,603	13,185	880	9,216	1,993	1,391	41,058
FFEITHIOL I BLANT	18,967	16,652	29,088	3,290	16,239	4,636	39	88,911
FFUGLEN I BLANT	3,084	2,123	3,654	570	2,220	468	13	12,132
IS-GYFANSWM LLYFRAU	58,545	49,636	76,227	9,650	57,957	15,134	9,787	276,936
LLYFRAU OEDOLION AR CD	509	1,176	682	83	781	229	1,140	4,600
DVD I OEDOLION	656	95	593	96	581	76	147	2,244
SUB TOTAL ADULT AUDIO VISUAL	1,165	1,271	1,275	179	1,362	305	1,287	6,844
LLYFRAU PLANT AR CD	388	237	383	43	412	35	12	1,510
DVD I BLANT	492	379	798	177	555	49	0	2,450
SUB TOTAL CHILDREN'S AUDIO VISUAL	880	616	1,181	220	967	84	12	3,960
CYFANSWM CYHOEDDIADAU OEDOLION	37,659	32,132	44,760	5,969	40,860	10,335	11,022	182,737
CYFANSWM CYHOEDDIADAU PLANT	22,931	19,391	33,923	4,080	19,426	5,188	64	105,003
CYFANSWM	60,590	51,523	78,683	10,049	60,286	15,523	11,086	287,740
NIFER YR YMWELWYR	76,106	81,711	157,631	6,905	65,315	45,281	1,753	434,702
CEISIADAU AM LYFRAU	369	241	416	99	421	127	26	1,699
CWSMERIAID SYDD WEDI COFRESTRU	897	670	877	120	715	247	12	3,538
YMHOLIADAU	9,687	14,290	17,648	2,160	8,457	10,063	976	63,281